



Newidiadau i Amserau Trên

Changes to Train Times

Mehefin 2019 / June 2019



Allwedd / Key
 Lein ar agor / Line open ———
 Lein ar gau / Line closed ———

Atgoffir teithwyr y gall rhai siwrneiau hwyr y nos a chynnar yn y bore gael eu newid ar draws ein rhwydwaith – mae'n syniad da edrych ar y manylion cyn teithio.
 Gwnewch yn siŵr eich bod wedi prynu tocyn cyn mynd ar y gwasanaethau trafnidiaeth ar y ffordd sy'n cael eu darparu'n lle'r gwasanaeth rheilffordd.

Passengers are reminded some late night and early morning journeys may also be subject to change across our network and are advised to check before travelling.
 Please ensure you have purchased a ticket before boarding rail replacement road transport services.

Mae gwaith peirianyddol mawr yn digwydd yn ystod mis Mehefin ar y rhwydwaith yn y lleoliadau sydd wedi'u nodi isod. Mae'r rhain yn newidiadau i'r amserlen sydd wedi'i chyhoeddi. Dangosir manylion am sut fydd hyn yn effeithio ar eich siwrnai ar bosteri manwl mewn gorsafoddd lleol neu ffoniwch linell ymholiadau National Rail Enquiries ar 03457 484950.

Major engineering work taking place during June on the network at the locations detailed below. These are changes to the published timetable. Details of how this may affect your journey will be shown on detailed posters at local stations or call National Rail Enquiries on 03457 484950.

A Caerdydd Canolog i Dref Glynabwy Dydd Sul 2 a 30 Mehefin

Drwy gydol dydd Sul, bydd Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol rhwng Caerdydd a Glynabwy.

Bydd gwasanaeth bws yn cael ei ddarparu yn lle'r trenau rhwng Caerdydd a Thref Glynabwy.

B Casnewydd i'r Amwythig Dydd Sul 2 Mehefin

Ar y dyddiad hwn, bydd Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol rhwng Casnewydd a'r Amwythig.

Bydd gwasanaeth bws yn cael ei ddarparu yn lle'r holl wasanaethau dydd rhwng Casnewydd a'r Amwythig.

C Pontypridd i Gaerdydd Canolog Dydd Sul 2 Mehefin

Ar y dyddiad hwn tan 1230, bydd Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol rhwng Caerdydd Canolog a Ffynnon Taf.

Bydd bysiau'n cael eu darparu yn lle'r trenau rhwng Caerdydd Canolog a Phontypridd.

D Caerdydd Canolog i Gasnewydd Dydd Sul 9 ac 16 Mehefin

Drwy gydol dydd Sul, bydd Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol rhwng Caerdydd a Chasnewydd.

Bydd bysiau'n cael eu darparu yn lle'r trenau rhwng Caerdydd Canolog a Pye Corner, Caerdydd Canolog a Chasnewydd, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

E Caerdydd Canolog i Gogan Dydd Sul 9 ac 16 Mehefin

Ar y dyddiad hwn tan 1240, bydd Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol yn ardal Caerdydd Canolog.

Bydd bysiau'n cael eu darparu yn lle'r trenau rhwng Caerdydd Canolog a Chogan.

F Caerdydd Canolog i Heol y Frenhines Caerdydd Dydd Sul 9 ac 16 Mehefin

Ar y dyddiad hwn tan 1240, bydd Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol yn ardal Caerdydd Canolog.

Ni fydd unrhyw drenau'n gweithredu rhwng Caerdydd Canolog a Heol y Frenhines Caerdydd, bydd trenau i / o gyrchfannau lein y Cymoedd yn rhedeg i/o Fae Caerdydd.

G Caerdydd Canolog i Benarth, Ynys y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr Dydd Sul 30 Mehefin

Ar y dyddiad hwn tan 09.30, bydd Network Rail yn gwneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol rhwng Caerdydd Canolog a'r Barri.

Bydd bysiau'n cael eu darparu yn lle'r trenau rhwng Caerdydd Canolog a Phenarth, Ynys y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr.

A Cardiff Central to Ebbw Vale Town Sunday 2 and 30 June

All day Sunday, Network Rail will undertake essential maintenance between Cardiff and Ebbw Vale.

A replacement bus service will run between Cardiff and Ebbw Vale Town.

B Newport to Shrewsbury Sunday 2 June

On this date, Network Rail will undertake essential maintenance work between Newport and Shrewsbury.

All day services between Newport and Shrewsbury will be replaced by a bus service.

C Pontypridd to Cardiff Central Sunday 2 June

On this date until 1230 Network Rail will undertake essential maintenance work between Cardiff Central and Taffs Well.

Buses will replace services between Cardiff Central and Pontypridd.

D Cardiff Central to Newport Sunday 9 and 16 June

All day Sunday Network Rail will undertake essential maintenance between Cardiff and Newport.

Buses will replace trains between Cardiff Central and Pye Corner, Cardiff Central and Newport, Newport and Bridgend.

E Cardiff Central to Cogan Sunday 9 and 16 June

On this date until 1240 Network Rail will undertake essential maintenance work in the Cardiff Central area.

Buses will replace trains between Cardiff Central and Cogan.

F Cardiff Central to Cardiff Queen Street Sunday 9 and 16 June

On this date until 1240 Network Rail will undertake essential maintenance work in the Cardiff Central area.

No trains will operate between Cardiff Central and Cardiff Queen Street, trains to / from Valley lines destinations will run to / from Cardiff Bay.

G Cardiff Central to Penarth, Barry Island and Bridgend Sunday 30 June

On this date until 09.30 Network Rail will undertake essential maintenance work between Cardiff Central and Barry.

Buses will replace trains between Cardiff Central and Penarth, Barry Island and Bridgend.



Yn anffodus, ni chewch gario beiciau, pramiau nac anifeiliaid (ac eithrio cŵn cymorth) ar drafnidiaeth wrth gefn ar y ffyrdd.

We regret that bicycles, prams and animals (except assistance dogs) cannot be carried on rail replacement road transport.



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

